**Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC**
**BBC Audience Council for Wales**

**CYFRINACHOL** **WEDI EU CADARNHAU**

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU Y BBC, LLANDAF, CAERDYDD DDYDD GWENER 6 MAWRTH 2009

Yn Bresennol:

*Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa*

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Roy Grant
Jane James
Teresa Rees
Alex McMillan
Nicola Branson
Arun Midha
Dafydd Whittall
Andrew Carter,
Carl Cooper,
Sangeet Bhullar.

*Staff BBC Cymru Wales:*

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd,
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni, Saesneg, BBC Cymru Wales.

*Staff Uned Ymddiriedolaeth y BBC:*

Tim Davie, Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth y BBC (ar gyfer eitem 16)

*Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC*:

Karl Davies, Pennaeth Atebolrwydd a Llywodraethu Cymru Wales
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd, Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwyydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Jared Walters, Cynorthwyydd Tîm, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales.

### 19. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Dennis Gethin,
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni, Cymraeg a Chyfryngau Newydd
Cath Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu

### 20. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Cyfeiriodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol at yr ansefydlogrwydd mewn darlledu fel gwasanaeth cyhoeddus a'r canfyddiad bod y model busnes a oedd wedi gwasanaethu darlledu fel gwasanaeth cyhoeddus mor dda wedi methu.

Yr oedd y BBC yn cael ei wahodd i ystyried sut y gallai gynorthwyo gyda'r sefyllfa ac ystyriaeth allweddol oedd na ddylai'r BBC fyth ildio rheolaeth olygyddol. Yr oedd y trafodaethau'n mynd yn eu blaen mewn ffordd mor adeiladol â phosibl, ond yr oedd yn dod yn amlwg nad oedd yn debygol y gallai'r BBC ar ei ben ei hun achub teledu gwasanaeth darlledu cyhoeddus masnachol.

Yr oedd datganiad yr Ymddiriedolaeth ar yr adolygiad o weithgarwch masnachol BBC Worldwide wedi ei ddosbarthu gyda phapurau'r Cyngor. Yr oedd yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyllid y BBC ac yr oedd hyn wedi bod yn ffactor yn setliad trwydded diwethaf y BBC. Yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol ei bod yn hanfodol na ddylai BBC Worldwide fynd yn rhy bell ac felly yr oedd wedi dechrau cynnal adolygiad masnachol o'r cwmni beth amser yn ôl. Yr oedd hwn ar waith eisoes pan wnaethpwyd awgrymiadau y gallai BBC Worldwide fod yn rhan o bartneriaeth â darlledwyr eraill. Yn ei hanfod dywed y datganiad interim bod yr adolygiad yn mynd yn ei flaen ac y bydd y gwaith i adolygu ei weithgareddau yn parhau.

Gofynnodd y Cyngor a ellid defnyddio'r gyfran o'r drwydded sy'n cael ei gwario ar hyn o bryd ar y trosglwyddo i ddigidol i wella dalgylch radio DAB, a gofynnodd i PLlacA wahodd y Rheolwr Dosbarthu newydd, Alix Pride, i fynychu cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

Tynnodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol sylw'r Cyngor at benderfyniad yr Ymddiriedolaeth ar benderfyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol i beidio darlledu apêl Gaza DEC. Atgoffwyd y Cyngor ganddi hefyd fod prosiect Kangaroo wedi ei wrthod gan y Comisiwn Cystadleuaeth.

Dywedodd y byddai strategaeth ddysgu ac addysg y BBC yn cael ei chyflwyno i'r Ymddiriedolaeth yn ystod y misoedd nesaf.

Yr oedd y tywydd garw yn ystod mis Chwefror wedi bod yn hwb i'r ffigurau gwylio ar gyfer newyddion teledu ac i nifer yr ymweliadau â gwefannau.

**Ymateb y Cyngor i gynigion partneriaeth y BBC.**
Cafodd hyn ei gymeradwyo.

**Ymateb y Cyngor i Gynllun Gwaith Ymddiriedolaeth y BBC**
Cymeradwyodd y Cyngor yr ymateb drafft a gofynnodd iddo gael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth. Gofynnodd y Cyngor am i gyfeiriad gael ei wneud at y gwasanaethau botwm coch a ddarperir gan y BBC ar S4C – a oedd yn wasanaeth sylweddol a phwysig. Gofynnodd y Cyngor a fyddai'r Ymddiriedolaeth fel rhan o'i chynllun cydraddoldeb hefyd yn ystyried cynrychiolaeth o amrywiaeth poblogaeth Prydain ar y sgrin. Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn gan Weithrediaeth y BBC. Gofynnwyd i PLlacA a ellid paratoi nodyn i'r Cyngor yn amlinellu'r gwaith hwn.
**GWEITHREDU: PLlacA**

**Adroddiad ar Adolygiad yr Ymddiriedolaeth o Wasanaethau Plant**
Cymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad.

**Ymateb y Cyngor i Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ar Canvas**
Gofynnodd y Cyngor i ymateb drafft gael ei baratoi ac, er ei fod yn bositif, y dylai gynnwys cafeat am nad oes cysylltiad band eang ar gael i sawl carfan o'r gynulleidfa. Rhoddodd y Cyngor groeso arbennig i'r pwyslais ar argaeledd agored technoleg.

**Adroddiad gan y gweithgor allgymorth ar raglen Ymgysylltu â'r Gynulleidfa y Cyngor ar gyfer 2009**
Cymeradwyodd y Cyngor y rhaglen ddrafft o weithgareddau allgymorth. Amlinellodd PLlacA fanylion am y digwyddiadau arfaethedig a gofynnodd y Cyngor i'r staff Llywodraethu ac Atebolrwydd fwrw ymlaen â'u trefniadau.

Gofynnodd y Cyngor a oedd defnyddio'r gair 'henoed' yn briodol yng nghyd-destun ymchwil arfaethedig i ddarpariaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd hŷn. Dywedodd PLlacA fod y gair 'henoed' yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd dechnegol i gyfeirio at bobl dros 75 oed. Dywedodd y Cyngor er y dylai materion yn ymwneud â dementia fod yn elfen o waith ymchwil y Cyngor ar wasanaethau i'r henoed, dylid bod yn ofalus i wahaniaethu rhwng yr henoed a rhai â dementia. Dywedwyd fod dementia yn gyflwr sy'n effeithio ar bobl o dan 75 oed hefyd.

Gofynnodd y Cyngor a allai materion yn ymwneud â throsglwyddo i ddigidol fod yn rhan o'r digwyddiadau allgymorth sydd wedi'u hanelu'n fwyaf penodol at gynulleidfa hŷn.

Cymeradwyodd y Cyngor y prosiect ymchwil arfaethedig ar wasanaethau i'r henoed. Byddai papur sydd wedi cael ei ailddrafftio yn dilyn sylwadau'r Cyngor yn cael ei ddosbarthu cyn hir, a chytunodd y Cyngor y dylid edrych arno eto yn dilyn y digwyddiad allgyrraedd y Fforwm Cenedlaethol y Pensiynwyr ar 9 Ebrill.

**GWEITHREDU: PLlacA**

**Penodi aelodau newydd i'r Cyngor**
Tynnodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol sylw'r cyngor at yr aelodau newydd sydd wedi'u penodi gan yr Ymddiriedolaeth a dywedodd y bydd yr aelodau newydd yn ymuno â'r Cyngor ar ei ddiwrnod i ffwrdd ar 2 Ebrill ac yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 3 Ebrill.

Cytunodd y Cyngor na fydd yn cyflwyno tystiolaeth ar ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ar nawdd, gan ei fod yn ymgynghoriad ar faterion technegol yn ymwneud â'r broses o benderfynu ar y polisi.

*Ymunodd y rheolwyr â'r cyfarfod*

## 21. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A MATERION YN CODI

Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod, gyda rhai golygiadau wedi'u hawgrymu ar gyfer y fersiwn derfynol a gyhoeddir.

O dan faterion yn codi, cafwyd cyfeiriad at gynigion y BBC ar gyfer Fideo Lleol, a wrthodwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Bydd cynigion eraill a oedd yn ymdrech i roi sylw i'r bylchau a'r dibenion a nodwyd mewn darpariaethau lleol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Gweithredol y BBC o fewn y mis nesaf. Hysbyswyd y Cyngor gan y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes fod ITV wedi cyhoeddi yr wythnos flaenorol bod ei wasanaeth fideo lleol yn dod i ben ac yr oedd yn ymddangos yn debygol felly y byddai'r bwlch yn narpariaeth gwasanaethau lleol yn tyfu yn hytrach na lleihau yng Nghymru.

## 22. ADRODDIADAU

**Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol**
Hysbyswyd y Cyngor gan yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y bydd tystiolaeth yn cael ei chyflwyno gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, Rheolwr BBC Cymru Wales a'r Ymddiriedolwr Cenedlaethol i ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol i ddarlledu fel gwasanaeth cyhoeddus yr wythnos ganlynol.

Dywedodd fod y nifer sylweddol a oedd yn bresennol yng Nghinio Clwb Busnes Caerdydd yn ddiweddar lle bu Cadeirydd y BBC yn annerch yn adlewyrchiad o'r diddordeb mawr yn y BBC yng Nghymru.

**Rheolwr Cymru**

Hysbysodd Rheolwr Cymru y Cyngor y byddai'r cynnig am bartneriaeth gydag ITV ar gyfer casglu newyddion yn cael ei gyhoeddi'n fuan, ac y byddai'n cynnwys cyfeiriad at rannu cyfleusterau, ond y byddai hefyd yn gwneud cyfeiriad penodol at yr egwyddor allweddol o annibyniaeth olygyddol.

Dywedodd Rheolwr Cymru fod trafodaethau lefel uchel yn cael eu cynnal â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch strategaeth eiddo BBC Cymru Wales, a bod cynnydd wedi'i wneud. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn lleihau'r anawsterau sydd ar y gorwel o ganlyniad i'r amgylchiadau economaidd presennol. Mynegodd y Cyngor ei gefnogaeth gref i'r datblygiad hwn a'i ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyflawni'r prosiect hwn ar gyfer Dibenion Cyhoeddus y BBC yng Nghymru, ac i ymateb i anghenion y gynulleidfa a glywyd gan y Cyngor yn ei weithgarwch allgymorth.

Cyfeiriodd Rheolwr Cymru at yr Adolygiad o Gyflenwad Rhwydwaith Radio a oedd ar fin dechrau. Hysbysodd y Cyngor hefyd fod Bwrdd Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol wedi cynnal ei gynhadledd yng Nghymru yn ddiweddar a'i fod wedi defnyddio'r digwyddiad fel cyfle i fynegi pryder y Cyngor o'r angen i drwydded gwasanaeth *bbc.co.uk* gynnwys atodiad a oedd yn cyfeirio'n benodol at y Cenhedloedd.

Hysbysodd Rheolwr Cymru'r Cyngor hefyd fod cystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd 2009 wedi ei lansio'r diwrnod blaenorol a'i fod wedi bod yn achlysur positif dros ben.

**Adroddiad y Bwrdd**
Cymeradwyodd y Bwrdd leoliad y Gymrodoriaeth Cyfryngau Gwyddoniaeth, a fyddai'n golygu bod gwyddonydd yn cael ei leoli yn ystafell newyddion BBC Cymru Wales am chwe wythnos, a llongyfarchodd y Cyngor y Pennaeth Datblygu Darlledu am drefnu hyn.

Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Saesneg fod *Tellytales* wedi ei lansio'n ddiweddar ac y byddai'n ymddangos ar S4C, BBC Wales a *Cbeebies* yn y dyfodol agos. Soniodd hefyd am yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd lle byddai Russel T Davies a Julie Gardner yn ymddangos. Dywedodd wrth y Cyngor ei bod yn rhan o'r grŵp sy'n edrych sut y gallai rhagor o gomisiynau o'r cenhedloedd wella'r gynrychiolaeth.

## 23. CYFLWYNIAD GAN BENNAETH RHAGLENNI FFEITHIOL A CHERDDORIAETH BBC CYMRU

Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Ffeithiol a Cherddoriaeth fod blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r adrannau Rhaglenni Cerddoriaeth a Ffeithiol uno, ac felly roedd yn adeg addas iddo annerch y Cyngor. Dechreuodd trwy ddangos detholiad o gynyrchiadau sydd ar y gweill.

Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Ffeithiol a Cherddoriaeth fod rhai pethau wedi bod ar waith ers peth amser, megis cystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd, a bod yr adran hefyd yn edrych ar fformatau newydd, megis rhaglen sydd ar y gweill am yr Amgueddfa Hanes Naturiol, a fyddai'n cynnwys nifer o gyflwynwyr, ar ffurf debyg i *Coast*.

Wrth sôn am Ddibenion Cyhoeddus y BBC, dywedodd mai *X-Ray* a *The One Show* oedd y rhaglenni mwyaf amlwg o ran cyflawni'r diben Dinasyddiaeth.

Yr oedd *Last chance to see* yn enghraifft o raglen a oedd yn cyflawni'r diben o Hyrwyddo Addysg a Dysgu ac a oedd yn edrych ar rywogaethau a oedd ar fin diflannu am byth. Hefyd yn y categori hwn yr oedd *Just Read with Michael Rosen* a oedd yn hyrwyddo darllen mewn ysgolion ac a oedd wedi gwneud cyfraniad pwysig at y ddadl. Enwyd *The Human Planet* hefyd

gan y Pennaeth Rhaglenni Ffeithiol a Cherddoriaeth fel rhaglen flaenllaw a oedd yn cael ei chynhyrchu ar hyn o bryd ac a oedd yn edrych sut yr oedd pobl wedi addasu i fyw ym mhob hinsawdd ar y ddaear.

Yr oedd cystadlaethau *BBC Canwr y Byd Caerdydd* a *Cherddor Ifanc y Flwyddyn* yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gyflawni'r diben Hyrwyddo Rhagoriaeth Ddiwylliannol.

Yr oedd Cynrychioli'r DU, ei Chenhedloedd, Rhanbarthau a Chymunedau yn cael ei gyflawni gan raglenni teledu ffeithiol megis *Coast* a *Hospital 24/7* ac yr oedd rhaglenni fel *Horse people* a *Tribe* yn cyfrannu at Ddod â'r DU i'r Byd a'r Byd i'r DU.

Dywedodd er nad oedd y broses o uno'r ddwy adran wedi bod yn hawdd bob amser, yr oedd wedi arwain at ganlyniadau positif – ac un enghraifft amlwg o'r llwyddiant hwn oedd cyngerdd *Doctor Who* yng ngŵyl y Proms yn 2008. Cyfeiriodd hefyd at gyfres am Cuba a gynhyrchwyd yn ddiweddar, a oedd wedi cael ei chreu gan yr Adran Ffeithiol, ond a oedd hefyd yn cynnwys elfen gerddorol gref.

Ystyriaeth holl bwysig iddo oedd datblygu mas critigol ac mai blaenoriaeth yn y dyfodol fyddai datblygu hyn yng nghyd-destun radio yn yr un modd â'r hyn a gyflawnwyd ar deledu. Dywedodd fod yr Adran Rhaglenni Ffeithiol (a'r Adran Rhaglenni Ffeithiol a Cherddoriaeth wedi hynny) wedi tyfu'n sylweddol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mai elfen gref o'r twf hwn fu'r cyfleoedd i staff weithio ar gynnyrch lleol a Rhwydwaith ar deledu a radio.

Mynegodd y Cyngor ei edmygedd o'r gwaith oedd yn cael ei wneud gan yr Adran Rhaglenni Ffeithiol a Cherddoriaeth, yn enwedig o ran ennill nifer cynyddol o gomisiynau Rhwydwaith. Gofynnodd y Cyngor pa effaith fyddai canllawiau nawdd newydd y BBC yn ei chael ar nawdd i ddigwyddiadau a ddarlledir. Dywedodd Pennaeth yr Adran Rhaglenni Ffeithiol a Cherddoriaeth fod y canllawiau newydd yn ddi-os wedi gwneud pethau'n anos yn y tymor byr ond byddai'r eglurder pellach a gyflwynwyd yn sgil yr ymarferiad yn cynorthwyo'r Adran yn y tymor hir.

Gofynnodd y Cyngor i ba raddau yr oedd cynulleidfaoedd yng Nghymru yn ymwybodol o gyfraniad BBC Cymru Wales at gynnyrch y Rhwydwaith. Dywedodd y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu nad oedd ymchwil benodol wedi'i gwneud ond ymddengys fod mwy o ymwybyddiaeth ohono yn ôl tystiolaeth anecdotaidd.

Gofynnodd y Cyngor a oedd rhaglenni megis *The Human Planet* yn cael eu ffilmio mewn manylder uwch, a dywedodd Pennaeth yr Adran Rhaglenni Ffeithiol a Cherddoriaeth eu bod.

Gofynnodd y Cyngor a oedd crefydd yn dod o fewn cylch gwaith yr Adran. Dywedodd Pennaeth yr Adran Rhaglenni Ffeithiol a Cherddoriaeth fod ei adran yn cynhyrchu rhaglenni gyda thema grefyddol a chyfeiriodd at raglenni diweddar megis *Trouble in Amish Paradise* a rhaglen am Martin Luther King fel enghreifftiau. Fodd bynnag, yr Adran Rhaglenni Crefyddol oedd yn bennaf cyfrifol am y math hwn o raglenni.

## 24. CYFLWYNIAD AR BROSIECT LLEOLI'R DEFNYDDIWR YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Croesawyd Pennaeth Cynulleidfaoedd Ymddiriedolaeth y BBC i'r cyfarfod a chyflwynodd brosiect lleoli'r defnyddwyr Ymddiriedolaeth y BBC i'r Cyngor. Yr oedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar Ymddiriedolaeth y BBC ei hun, ond hefyd, yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno y dylai gryfhau ei pherthynas â'r Cynghorau Cynulleidfa ac y dylai hyn gynnwys adolygiad o strategaeth gyfathrebu Ymddiriedolaeth y BBC.

Wrth ateb y cwestiwn 'pam?', dywedodd mai un rheswm oedd y diffyg ymwybyddiaeth o Ymddiriedolaeth y BBC ymhlith y cyhoedd - 17% o'r rhai a holwyd oedd ag ymwybyddiaeth ystyrlon o Ymddiriedolaeth y BBC, tra mae ymwybyddiaeth o Ofcom yn 49%. Dywedodd hefyd fod dryswch o hyd ynghylch rôl yr Ymddiriedolaeth a bod angen egluro perthynas yr Ymddiriedolaeth a'r BBC ehangach ac i ddiffinio'n fwy pendant yr hyn mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud.

Gwelwyd fod angen meithrin perthynas â'r cyhoedd a bod yn haws i'r defnyddiwr, ac yr oedd yr ymchwil a wnaethpwyd wedi amlygu hunaniaeth a phersonoliaeth ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a fyddai'n ei gwneud yn fwy apelgar – yn sylfaenol, egluro "beth yr ydym yn ei wneud a sut gorff yr ydym". Nid oedd y broses hon wedi bod yn gwbl syml gan fod gan bobl syniadau gwahanol am yr hyn mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud. Yr oedd hefyd yn wir nad oedd y cyhoedd o reidrwydd yn malio i'r un graddau am y pethau oedd yn bwysig i'r Ymddiriedolaeth ac yr oedd felly'n anodd pennu blaenoriaethau.

Datblygwyd y lleoli trwy gasglu barn wrth wrando ar bobl mewn sefydliadau allanol ac aelodau'r Cyngor Cynulleidfa. Yr oedd adolygiadau ymchwil hefyd wedi cael eu cynnal a oedd wedi cyfrannu at ddealltwriaeth o'r hyn oedd yn bwysig i randdeiliaid eraill. Yr oedd y cwmni wedi datblygu opsiynau posibl a oedd yn fwriadol eithafol er mwyn ennyn ymateb pendant.

Yr oedd y cwestiynau a ofynnwyd yn ystod yr ymchwil wedi cynnwys:

Yr hyn yr ydym yn malio yn ei gylch
Yr hyn yr ydym yn ei wneud i'r BBC
Yr hyn ydym ni
Sut yr ydym yn ymwneud â'r cyhoedd
Sut sefydliad ydym ni
O ble daw'n hawdurdod

ac ystyriwyd opsiynau amrywiol yng nghyd-destun pob cwestiwn.

Gofynnodd y Cyngor a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i rôl graffu'r Ymddiriedolaeth. Atebodd y Pennaeth Cynulleidfaoedd trwy ddweud fod hwn yn fater a oedd wedi cael ei ystyried ac a oedd erbyn hyn wedi'i gynnwys o fewn y pennawd 'rheoleiddio ac archwilio'.

Hysbysodd y Cyngor fod ymchwil wedi dangos i'r Ymddiriedolaeth nad oedd llawer o awydd ymhlith defnyddwyr i ymgysylltu â hi ond eu bod am iddi fod yn effeithiol ar eu rhan. Yr oeddent am gadw'r hyn oedd yn arbennig am y BBC – ei werthoedd – er bod y diffiniad o hyn yn amrywio'n fawr. Ar y cyfan, yr oedd pobl am sicrhau bod y BBC yn darparu cynnyrch o ansawdd uchel. Yr oedd angen i'r Ymddiriedolaeth ddangos ei bod yn gwrando ac yn barod i dderbyn syniadau ac agweddau newydd.

Yr oedd neges graidd wedi'i chanfod a'i ffurfio ac yr oedd yn cael ei defnyddio eisoes mewn rhai ymgynghoriadau a hysbysebion am swyddi ac yr oedd yn ddefnyddiol, gan ei bod yn defnyddio iaith haws ei deall na'r iaith a ddefnyddiwyd yn y gorffennol. Y nodweddion personoliaeth a nodwyd oedd egwyddorol, derbyngar a phwrpasol. Dywedodd mai'r nodwedd derbyngar oedd yr un a oedd angen mwy o sylw yn y dyfodol.
Bu'r Pennaeth Cynulleidfaoedd yn rhannu gyda'r Cyngor rai o'r themâu gweledol a oedd wedi cael eu hystyried yn ystod y prosiect a'r dulliau a ddefnyddiwyd i fynegi gwahanol bersonoliaethau. Yr oedd penawdau gwahanol hefyd wedi cael eu defnyddio fel ffordd o gyfleu personoliaeth yr Ymddiriedolaeth.

Dywedodd fod y wedd weledol gyffredinol wedi cael ei chymeradwyo a dywedodd fod y rôl wedi cael ei chrynhoi fel "Cael y gorau o'r BBC i dalwyr y drwydded". Yr oedd y cyfeiriad at dalwyr y drwydded wedi bod yn anodd am nifer o resymau, ond cytunwyd arno yn y diwedd er mwyn pwysleisio'r cysylltiad uniongyrchol rhwng y BBC a thalwyr y drwydded. Mae'r gwaith gweledol yn parhau ond mae'r lliwiau a ddefnyddir wedi datblygu. Yr oedd i raddau helaeth yn golygu cyfyngu ar y lliwiau eilaidd. Byddai lluniau hefyd yn cael rôl amlycach yng nghyhoeddiadau a gwefannau'r Ymddiriedolaeth. Hefyd dangoswyd enghreifftiau o gloriau i'r Ymddiriedolaeth a oedd yn defnyddio ffotograffau a sut y defnyddiwyd y pennawd Cymraeg. Dylai prif naws y ffotograffau adlewyrchu'r positif, y pwrpasol, y cynnes, bywiol a'r naturiol a dylid defnyddio'r geiriau hyn wrth gyfarwyddo ffotograffwyr.

Gan droi at weithredu dywedodd bod yr arddull gweledol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a bod y wefan yn cael ei hadfywio. Byddai'r naws newydd yn cael ei adlewyrchu hefyd yn nogfennau'r Ymddiriedolaeth a byddai'r diffiniad o rôl graidd yn cael ei ddefnyddio hefyd mewn darllediadau a chyfweliadau. Byddai'r dyluniad gweledol yn adroddiadau'r Ymddiriedolaeth yn cael ei ddefnyddio a byddai ymagwedd yr Ymddiriedolaeth tuag at ymgysylltu'n cael ei phennu. Yr oedd dull o hyrwyddo ar yr awyr yn destun trafod gyda Gweithrediaeth y BBC.

Diolchodd y Cyngor i'r Pennaeth Cynulleidfaoedd am y sylw yr oedd Corporate Edge wedi'i roi i'r materion a godwyd gan aelodau Cyngor Cynulleidfa Cymru yn ystod y broses ymgynghori a ffurfioli. Gofynnodd y Cyngor hefyd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i godi proffil y Cynghorau – yn enwedig arwahanrwydd eu rôl. Dywedodd y Pennaeth Cynulleidfaoedd mai darn pwysig o waith yn ystod y flwyddyn nesaf fydd datblygu Strategaeth Gyfathrebu wedi'i diweddaru ar gyfer Ymddiriedolaeth y BBC a fyddai hefyd yn codi proffil y Cynghorau Cynulleidfa.

## 25. BLAENORIAETHAU I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Ni nodwyd unrhyw flaenoriaethau.

## 26. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF A DIWRNOD I FFWRDD Y CYNGOR

Atgoffwyd y Cyngor y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Ebrill 2009 yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC, Caerdydd ac y bydd diwrnod i fwrdd y Cyngor ar brynhawn a min nos 2 Ebrill.

***